
# Gwasanaeth Seicoleg Addysg Sir Fynwy

## Gwybodaeth am Rieni/Gofalwyr



Os oes gennych bryderon am ddysgu neu les emosiynol eich plentyn, siaradwch ag athro, tiwtor dosbarth neu Gydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol eich plentyn yn y lle cyntaf. Os ydych chi ac ysgol/lleoliad eich plentyn yn cytuno i'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg (GSA) ddod yn rhan o gynnydd eich plentyn, gofynnir i chi am eich cydsyniad.Os yw'ch plentyn yn ddigon hen, efallai y bydd yn gallu rhoi ei gydsyniad gwybodus ei hun.

## Beth mae Seicolegydd Addysg (SA) yn ei wneud?



Mae Seicolegwyr Addysg yn gweithio ar y cyd mewn ysgolion a lleoliadau addysgol i gefnogi plant a phobl ifanc. Rydym yn gweithio gydag athrawon, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol eraill i sicrhau newid cadarnhaol. Ein nod yw helpu ysgolion a rhieni/gofalwyr i ddod o hyd i ffordd o wella pethau pan fydd plentyn yn cael anhawster gyda'i ddysgu a/neu ei les emosiynol.

## Beth gallaf ddisgwyl gan yr SA?



Gall yr SA wneud rhai neu'r cyfan o'r canlynol:

- Sylwadau yn eu cyd-destun, gan gynnwys rhyngweithio â'r plentyn fel rhan o grŵp o fewn y dosbarth.
- Cyfarfod ymgynghori gyda staff yr ysgol.
- Treulio amser yn siarad â'ch plentyn i gasglu eu barn.
- Ymgynghoriad Teulu Ysgol ar y Cyd (gyda rhieni/gofalwyr ac athrawon). Gall y person ifanc fynychu rhan neu'r cyfan o'r cyfarfod hwn. Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i wneud cynllun i helpu eich plentyn.
- Adolygiad Ymgynghori (gwahoddir y rhiant/gofalwr a'r disgybl).
- Os cytunir ar hyn, efallai y bydd gwaith uniongyrchol yn cael ei gwblhau gyda'ch plentyn.
- Adborth ysgrifenedig yn cael ei gopïo i chi, yr ysgol, a gyda'ch caniatâd chi, i weithwyr proffesiynol perthnasol.

Bydd yr ysgol yn sicrhau bod y syniadau y cytunwyd arnynt yn cael eu cynnwys ym Mhroffil Un Tudalen neu Gynllun Datblygu Unigol eich plentyn.
Gall SA hefyd fod yn ysgol/lleoliad eich plentyn yn darparu hyfforddiant, yn goruchwylio, yn gwneud gwaith ymchwil neu'n gweithio gyda grwpiau o ddisgyblion neu staff.



## Angen fwy o wybodaeth?

Am ragor o wybodaeth ewch i'r wefan trwy sganio'r cod QR neu wrth glicio ar y ddolen hon. Ar gyfer ymholiadau cysylltwch â: wendyedwards@monmouthshire.gov.uk 01633 644418

hcpc registered www.hcpc-uk.org